ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

17.06.22

Ymweliadau ac amserlen 'Dringo'n Uwch'

Fel y gwyddoch, rydym wedi trefnu gweithgareddau Dringo'n Uwch ar gyfer Blwyddyn 12 yn ystod 5ed - 13eg o Orffennaf. (Gweler yr amserlen sydd wedi'i atodi) Pwrpas y gweithgareddau hyn yw i ymchwilio a chynllunio ar gyfer y cam nesaf wrth adael yr ysgol.

Trefnwyd dau ymweliad fel rhan o'r amserlen 'Dringo'n Uwch' rydym wedi trefnu ar eu cyfer yr hanner tymor hwn.

1. Diwrnod Blasu Prifysgol Met Caerdydd. Pwrpas y diwrnod yw darparu cyfleoedd i'r myfyrwyr brofi 2 sesiwn blasu o bynciau gwahanol o fewn yr amgylchedd prifysgol. Bydd y 2 sesiwn blasu yn awr o hyd, ac mae'r cyfle i fyfyrwyr ddewis 1 darlith ei hun, a hefyd darlith 'wildcard', iddyn nhw allu ehangu eu profiad. Mae'r pynciau ar gyfer y sesiynau blasu yn amrywio o Addysg Gynradd, Chwaraeon, Gwyddorau Iechyd, Celf & Dylunio a Busnes. Caniateir i fyfyrwyr wisgo eu gwisg eu hunain a bydd angen naill ai pecyn bwyd neu arian i brynu bwyd. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad tuag at y costau teithio, caiff y manylion llawn ei rhannu gyda chi cyn yr ymweliad penodol.
2. Ymweliad â Phrifysgol De Cymru Trefforest ar **Orffennaf y 7fed**. Dyma ddiwrnod sydd wedi ei drefnu yn arbennig ar gyfer Chweched Dosbarth Bryn Tawe. Bydd yn gyfle i fyfyrwyr gael blas ar gampws prifysgol, derbyn cyflwyniad i lwybr UCAS, a hefyd cael cofrestru ar wefan UCAS gyda chymorth staff y brifysgol. Bydd hyn yn golygu bod modd i bob myfyriwr ddechrau ar eu cais prifysgol ar ôl y diwrnod hwn, gan gofio mai dyddiad cau ceisiadau ar gyfer Rhydychen, Caergrawnt a chyrsiau meddygaeth a milfeddygaeth yw Hydref 15 fed. Ein dyddiad cau mewnol ni ar gyfer pob cais yw Rhagfyr 15 fed. Mae'n bwysig felly bod pob myfyriwr yn bresennol ac yn manteisio ar y cyfle hwn. Byddwn yn gadael yr ysgol am 8.50 ac yn dychwelyd erbyn y bysiau ar ddiwedd y dydd. Caniateir i fyfyrwyr wisgo eu gwisg eu hunain a bydd angen naill ai pecyn bwyd neu arian i brynu bwyd. **Ni fydd angen cyfraniad at gostau teithio.**

Nodwch isod pa ymweliadau y bydd eich plentyn yn mynychu a dychwelwch y slip caniatâd erbyn **Mehefin 24ain**, os gwelwch yn dda.

Timetable and proposed visits during the 'Aiming Higher' timetable

As you are aware, we have arranged Aim Higher activities for Year 12 between the 5th and 15th of July. (see attached timetable) The purpose of these activities is to research and plan for the next step after leaving school.

Two visits have been arranged as part of the Aim Higher activities.

1. *Cardiff Met University Taster Day. The purpose of the day is to provide opportunities for students to experience 2 different subject taster sessions within the university environment. There will be 2 taster sessions, and students have the opportunity to choose 1 lecture of their own, and also a 'wildcard' lecture, so that they can broaden their experience. Topics for the taster sessions range from Primary Education, Sport, Health Sciences, Art & Design and Business. Students can wear their own clothes and they will need either a packed lunch or money to buy food. We kindly ask for a contribution towards the travelling costs. Details will be shared closer to the date.*
2. *A visit to The University of South Wales, Trefforest on **July the 7th**. This event has been especially arranged for Bryn Tawe Sixth Form. It will be an opportunity to sample a university campus, receive practical information about the UCAS process, and be guided through registration on the UCAS website. Every pupil will then be able to proceed with their university application, bearing in mind that the deadline for applications for Oxford, Cambridge and all medicine and veterinary courses is October the 15th. Our internal deadline for all applications is December the 15th. It is essential therefore that every student is present and takes full advantage of this opportunity. We will be leaving the school at 8.50 and returning by the end of the school day. Students can wear their own clothes and they will need either a packed lunch or money to buy food. **Transportation will be free of charge**.*

*Please note below which visits your child wishes to attend and return the consent slip by **June the 24th**.*

Yn gywir,
Miss Catrin Lyall
Is-bennaeth y Chweched Dosbarth.

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgolion Unicef
Ysgol Rygbi
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Slip caniatâd / Permission slip

Enw'r disgybl/Pupils' name:

_____

	Diwrnod Blasu Met Caerdydd / Cardiff Met Taster Day
	Ymweliad Prifysgol De Cymru / Visit to University of South Wales

Rhoddaf ganiatad i'm plentyn fynychu'r daith/teithiau a nodwyd uchod
I give permission for my child to attend the above visit/s.
Materion Iechyd i fod yn ymwybodol ohonynt*/Medical issues to be aware of-*

_____

_____

Arwyddwyd/Signed:_____

Dyddiad/ Date:_____

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales